# Y Gwasanaeth Nyrsio Ysgol

## YSGOL CYNRADD

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

SN1 May '18

## Y Gwasanaeth Nyrsio Ysgol

Mae Nyrsys Ysgol yn nyrsys cymwys gyda hyfforddiant ychwanegol i adnabod anghenion iechyd plant a phobl ifanc. Mae'r Nyrs Ysgol:

- yn gweithio gyda phlant o fod yn 4 oed hyd nes byddant yn gadael yr ysgol
- yn darparu cyngor a chefnogaeth i rieni, plant a phobl ifanc ynghylch imiwneiddio, bwyta'n iach, ymddygiad asthma, epilepsi, alergeddau, cysgu, llau pen, gwlychu a baeddu'r gwely
- yn gweithio mewn partneriaeth gyda rhieni, staff yr ysgol, Meddygon Teulu, Ymwelwyr Iechyd ac asiantaethau eraill.

### Sgrinio Iechyd

Yn ystod y flwyddyn gyntaf yn yr ysgol gynradd bydd eich plentyn yn derbyn sgriniad iechyd sy'n cynnwys mesur taldra, pwysau, a phrofion golwg a chlyw.

Mae'n bosibl y bydd tâp meddygol yn cael ei ddefnyddio i orchuddio'r llygaid yn ystod bob prawf golwg felly rhowch wybod i'r tîm Nyrsys Ysgol os oes gan eich plentyn alergedd i dâp meddygol.

Cynhelir y gwaith sgrinio ym mhob ysgol yn ei thro yn ystod y flwyddyn ysgol.

Byddwch yn derbyn cadarnhad o ganlyniad sgrinio iechyd eich plentyn.
Os oes unrhyw broblem,
bydd y Nyrs Ysgol yn cynnig apwyntiad i chi gyda hi neu'r Pediatrydd Cymunedol.

**A fyddech gystal â chwblhau'r holiadur amgaeedig a'i ddychwelyd i'r ysgol o fewn tri diwrnod o'i dderbyn.**

### Cyngor Iechyd Ychwanegol

Os nad yw'ch plentyn wedi cofrestru â Deintydd, cysylltwch â Galw Iechyd Cymru ar 0845 46 47 i gael gwybodaeth leol.

Mae optegwyr yn rhoi profion golwg am ddim i blant. Os byddwch chi'n pryderu unrhyw bryd am olwg eich plentyn, trefnwch apwyntiad gyda'ch Optometrydd / Optegydd lleol.

### Imiwneiddio

Cynigir imiwneiddiadau i blant yn unol â Rhaglen Frechu'r DU. Erbyn i'ch plentyn ddechrau'r ysgol gynradd, dylai fod wedi derbyn ei ddos atgyfnerthu cyn ysgol a'i ail MMR.

Bydd angen ffurflen gydsynio wedi'i llofnodi ar gyfer bob imiwneiddiad a gaiff ei anfon atoch cyn cynnig unrhyw imiwneiddiad gan y nyrs ysgol.

Os nad ydych yn sicr a yw eich plentyn yn gyfredol o ran yr amserlen imiwneiddio, cysylltwch â'ch meddyg teulu i wirio neu drefnu apwyntiad i'ch plentyn gael ei imiwneiddio.

Mae'n bwysig cofio bod rhaglen imiwneiddio gyfredol y DU wedi amddifyn nifer o blant rhag bod yn ddifrifol wael gyda chlefydau heintus, a dyma'r rheswm rydym yn awgrymu'n gryf dylai bob plentyn gael ei imiwneiddio.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan Dîm eich Nyrs Ysgol.

**Eich Tîm Nyrs Ysgol yw:**

Tim Nyrsus Ysgol
School Nurses Team
03000 853 189/190
183/185